Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Hwyl Henryd**

**Ysgol Llangelynnin**
**Henryd**
**Conwy**
**LL32 8YB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/12/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Clwb Hwyl Henryd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Clwb Hwyl Henryd |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn mynegi eu barn yn hyderus. Maent wedi gwneud ffrindiau ac yn chwarae'n hyderus gyda'i gilydd ac ochr yn ochr â'r staff. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt a gallant wneud dewisiadau am sut i dreulio eu hamser. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda, ac yn ystyried eu hanghenion a'r hyn sydd orau ganddynt. Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n gadarnhaol ac maent yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r teganau a'r adnoddau yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant ddysgu a meithrin eu sgiliau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol ac maent wedi meithrin cydberthnasau da gyda'r plant a'r rhieni.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn gwneud dewisiadau ynghylch sut maent am dreulio eu hamser yn hyderus. Maent yn symud yn rhydd o amgylch yr ardaloedd gweithgareddau sydd ar gael ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn gwybod y gallant ofyn i'r staff am help pan fydd angen, neu i ofyn am yr hyn y maent ei eisiau. Roedd y plant yn gofyn yn hyderus am fwy o dost yn ystod amser byrbryd, er enghraifft, a bodlonwyd eu ceisiadau yn brydlon.

Mae'r plant wedi setlo ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd, am eu bod i gyd yn mynychu'r ysgol gyfagos. Maent wedi meithrin cydberthnasau cynnes â'r staff a gyda'i gilydd, sydd wedi eu helpu i deimlo'n ddiogel. Roedd y plant yn siarad yn hyderus â ni, gan ofyn cwestiynau a sôn wrthym am eu diwrnod yn yr ysgol, er enghraifft. Mae'r plant yn awyddus i gynnwys y staff yn eu chwarae. Er enghraifft, aeth grŵp o blant ati'n hapus eu byd i greu gwaith celf gan ddefnyddio deunyddiau o'r blwch crefftau. Roeddent yn awyddus i gynnwys y staff, gan ddangos balchder yn eu gwaith wrth iddynt ddangos y darluniau y gwnaethant eu creu i'r aelod o staff. Gwenodd y plant wrth iddynt gael eu canmol am eu hymdrechion.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu sut i gydweithredu, aros eu tro a helpu eraill. Eisteddodd grŵp bach o blant wrth y bwrdd a chwarae'n ddychmygus â ffigyrau deinosor, er enghraifft. Roeddent yn sgwrsio’n hapus ac yn rhoi cyfarwyddyd i'w gilydd wrth chwarae. Mae'r plant hŷn yn mwynhau helpu'r plant iau. Er enghraifft, roedd plentyn hŷn yn helpu'r plant iau i ymarfer y caneuon roeddent yn eu dysgu ar gyfer eu sioe Nadolig. Helpodd y plant hŷn y plant iau i osod rhai o'r gweithgareddau a chwarae gyda nhw. Mae'r plant yn ymateb yn dda i ganmoliaeth gan y staff ac maent yn awyddus i ddilyn cyfarwyddiadau a helpu gyda thasgau.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a gynigir, dan do ac yn yr awyr agored. Cafodd grŵp o blant hwyl wrth chwarae yn yr awyr agored, er enghraifft, gan ddringo ar y llong môr-ladron, a gwenu a chwerthin. Mae'r plant yn chwarae'n dda â'i gilydd, yn aros eu tro, ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig. Cafodd dau blentyn lawer o hwyl yn creu coronau i fynd gyda'u gwisgoedd tywysoges gan ddefnyddio'r deunyddiau crefft, er enghraifft. Gwnaethant ganolbwyntio'n dda wrth dorri siapiau o'r cerdyn a mwynhau gludo gwahanol siapiau ac addurniadau ar eu coronau. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau dod i'r clwb, a dywedodd un ei fod yn hoffi chwarae yn yr awyr agored gyda'i ffrindiau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu'n gymdeithasol ac i ddod yn annibynnol. Cânt eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, golchi eu dwylo, a'u sychu, cyn amser byrbryd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall gweithdrefnau'r lleoliad i sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn iach, ac maent yn eu dilyn. Maent wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a chaiff unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n briodol a'u llofnodi gan y rhieni. Mae'r staff yn hyderus yn y gweithdrefnau cywir i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blentyn ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng gan eu bod yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn cadw cofnodion manwl.

Mae'r staff yn annog y plant i fwyta'n iach. Maent yn darparu byrbrydau iach, megis ffrwythau, caws a thost gyda llaeth neu ddŵr i'w yfed. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo pan fydd angen ac yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i dreulio amser yn yr awyr agored, gan sicrhau eu bod yn meithrin eu sgiliau corfforol. Fodd bynnag, ni wnaeth y staff lanhau'r byrddau gyda chwistrell gwrthfacterol rhwng gweithgareddau ac amseroedd bwyd, ac ni ddefnyddiwyd ffedogau wrth baratoi'r bwyd.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn llwyddiannus; mewn ffordd y maent yn deall. Gan roi esboniadau syml, a helpu'r plant i gydweithredu a dysgu sgiliau cymdeithasol, er enghraifft. Mae'r staff yn fodelau rôl da ac maent yn annog y plant i fod yn garedig a chwrtais. Maent yn canmol ac yn dathlu ymddygiad da, megis helpu i dacluso neu fod yn garedig. Mae gan y plant gydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n eu trin â pharch.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau difyr dan do ac yn yr awyr agored y bydd y plant yn eu mwynhau. Maent yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad, gan eu helpu i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol. Fodd bynnag, nid oes ganddynt brosesau ar waith i gasglu gwybodaeth gan y plant am eu hoff bethau a'u diddordebau er mwyn eu galluogi i gyfrannu at y gwaith o gynllunio gweithgareddau. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni drwy e-byst, trafodaethau ar lafar ar ddiwedd y dydd ac ar dudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau i ddarparu amgylchedd diogel i'r plant. Mae gan y gwasanaeth asesiadau risg ysgrifenedig ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant. Caiff y rhain eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio asesiadau risg/buddion ar gyfer gweithgareddau chwarae mentrus, megis defnyddio cyfarpar dringo ac adeiladu cuddfan. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd mawr ac addas i'r plant chwarae a dysgu.  Maent yn darparu detholiad da o deganau ac adnoddau a gaiff eu storio mewn man lle y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Ceir rhai enghreifftiau o weithiau celf y plant ar y waliau sy'n creu'r ymdeimlad o berthyn. Mae pob ardal mewn cyflwr da ac yn groesawgar i'r plant. Mae iard yr ysgol yn rhoi cyfleoedd i'r plant feithrin eu sgiliau corfforol drwy ddefnyddio cyfarpar dringo neu ddewis o'r detholiad o deganau awyr agored. Mae'r ardal laswelltog, fawr yn cynnig cyfleoedd i'r plant chwarae a rhedeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnig rhai cyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn chwarae synhwyraidd ac arbrofi gyda deunyddiau naturiol. Mae ardal goediog, fach i'w harchwilio, ac mae adeiladu cuddfan yn weithgaredd rheolaidd. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i archwilio deunyddiau naturiol mewn amgylchedd dan do. Roedd prinder teganau ac adnoddau a oedd yn hybu amrywiaeth a gwahanol ddiwylliannau hefyd.  Mae amrywiaeth o gyfarpar ar gael i hybu annibyniaeth y plant, gan gynnwys stepiau yn yr ystafell ymolchi i hybu annibyniaeth y plant iau wrth ddefnyddio'r toiled ac wrth olchi eu dwylo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u rôl a'u cyfrifoldebau rheoleiddiol. Maent yn sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol. Mae'r polisïau yn gynhwysfawr a chânt eu hadolygu'n rheolaidd, gan helpu'r staff i gael y wybodaeth ddiweddaraf ac arferion gorau. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, sy'n golygu y gall rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r lleoliad yn diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Maent yn gobeithio cynyddu niferoedd y plant y maent yn gofalu amdanynt, gan fod galw uchel am y gwasanaeth. Mae ganddynt gynlluniau ar waith i gasglu adborth gan rieni a phlant er mwyn iddynt allu llunio adroddiad i amlinellu'r gwelliannau y maent eisoes wedi'u gwneud, a'r gwelliannau sydd ar y gweill ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ac maent yn eu cefnogi er mwyn iddynt allu cyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan ddangos bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig a oedd yn dangos bod sesiynau goruchwylio'r staff wedi cael eu cynnal yn rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni'n effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a gasglwyd gan y rhieni a oedd yn nodi anghenion penodol y plant. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal a roddir i'w plant. Dywedodd y rhieni wrthym fod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff, a oedd yn rhannu gwybodaeth ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn, drwy e-byst ac ar dudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 - Staff i fod yn ystyriol o weithdrefnau hylendid wrth baratoi bwyd.

A2 - Ystyried cynyddu'r cyfleoedd i'r plant archwilio deunyddiau wedi'u hailgylchu, deunyddiau naturiol a deunyddiau amlddiwylliannol.

A3 – Ystyried ffurfioli proses i gasglu gwybodaeth am ddiddordebau a hoff bethau'r plant er mwyn eu galluogi i gyfrannu at y gwaith o gynllunio gweithgareddau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/01/2023